# Asesiad Strwythuredig 2022—Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2022

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3313A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 4

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 10

Trefniadau cynllunio strategol 18

Rheoli adnoddau ariannol 22

Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill 24

Atodiadau

Atodiad 1—Dull archwilio 31

Atodiad 2—Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio 34

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau o waith asesu strwythuredig 2022 yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi ei gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

2 Cynhaliwyd ein gwaith Asesu Strwythuredig yn 2022 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a gyflwynwyd gan yr argyfwng iechyd cyhoeddus, roedd cyrff iechyd hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau er mwyn ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn sy'n gallu rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd uchel, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Mae prif bwyslais y gwaith wedi bod ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad; trefniadau cynllunio strategol; trefniadau rheoli ariannol; a threfniadau ar gyfer rheoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill. Rydym hefyd wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o'i gymharu ag argymhellion a nodir mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

4 Manylir ar y dull a fabwysiadwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn **Atodiad 1**.

5 Nid ydym wedi adolygu trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd yn rhan o'r gwaith hwn. Yn hytrach, byddwn yn cynnal adolygiad ar wahân yn ystod 2023 o gynnydd y Bwrdd Iechyd wrth iddo fynd i'r afael ag argymhellion ein Hadolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg 2019, gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

## Negeseuon allweddol

6 Yn gyffredinol, canfuom **er bod trefniadau llywodraethu corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu a gwella, fod angen iddo gryfhau ei drefniadau perfformiad a rheolaeth ariannol er mwyn mynd i'r afael yn llawn â'r heriau sy'n wynebu'r sefydliad.**

7 Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r broses o gynnal busnes y Bwrdd a'r pwyllgor yn effeithiol. Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn ymrwymedig i fod yn agored, ond mae cyfleoedd yn bodoli i wella trefniadau gweinyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer

sicrhau tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd. Arweinir y Bwrdd Iechyd gan Dîm Gweithredol cymharol sefydlog, a gwnaed newidiadau cadarnhaol i swyddogaeth y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol i'w alluogi i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar drefniadau llywodraethu y Bwrdd Iechyd. Gwnaed gwaith helaeth i ddatblygu a chytuno ar fodel gweithredu newydd ar gyfer y sefydliad. Fodd bynnag, bydd yn cymryd amser i'r strwythurau newydd ymwreiddio ac i gyflawni'r buddion a'r gwelliannau bwriadedig. Yn gyffredinol, mae systemau sicrwydd y Bwrdd Iechyd yn gwella. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran datblygu Fframwaith Sicrwydd newydd y Bwrdd y mae'n rhaid iddo ei ddefnyddio yn awr i lunio busnes Bwrdd a phwyllgor. Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer adrodd ar berfformiad i'r Bwrdd, mae ei berfformiad yn parhau i fod y gwaethaf yng Nghymru mewn nifer o feysydd. Felly, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei drefniadau rheoli perfformiad ac adrodd yn canolbwyntio'n briodol ar yr heriau allweddol y mae'n eu hwynebu, yn enwedig lle mae perfformiad yn y meysydd hynny'n gymharol waeth na Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru.

8 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer y sefydliad, sy'n darparu fframwaith clir ar gyfer paratoi ei strategaeth glinigol. Mae paratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023–26 sy'n gytbwys yn ariannol ac yn gymeradwy hefyd yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd, gan iddo fethu â pharatoi cynllun tair blynedd cytbwys a chymeradwy eleni. Mae'r Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol o ddull y Bwrdd Iechyd o ymdrin â gwaith cynllunio strategol, ac mae tystiolaeth dda o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfranogiad o'r broses o ddatblygu cynlluniau a strategaethau corfforaethol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae diffyg canlyniadau mesuradwy a chrynodebau clir o gamau gweithredu/cyflawniadau allweddol, amserlenni a mesurau yn y cynlluniau a'r strategaethau corfforaethol, sy'n cyfyngu ar y gallu i fonitro ac adrodd yn effeithiol.

9 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cynllunio ariannol clir ac mae wedi cyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2021–22. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn annhebygol o gyflawni ei ddyletswyddau ariannol yn 2022–23 oherwydd pwysau cynyddol o ran costau a heriau ynghylch cyflawni arbedion rheolaidd ac atal gwariant. Felly, mae angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu ei drefniadau rheoli ariannol er mwyn mynd i'r afael yn llawn â'r risgiau i gyflawni cynaliadwyedd ariannol yn y tymor byr a'r tymor canolig. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau rhai gweithdrefnau rheoli ariannol hefyd. Mae'r adroddiadau ariannol a baratowyd ar gyfer y Bwrdd yn glir, yn gynhwysfawr, ac maent yn cefnogi gwaith monitro a chraffu effeithiol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella'r adroddiadau hyn ymhellach.

10 Mae cefnogi llesiant y staff yn flaenoriaeth glir i'r Bwrdd Iechyd. Er bod cynnig llesiant staff y Bwrdd Iechyd yn gynhwysfawr, mae angen i'r sefydliad ddarparu rhagor o sicrwydd i'r Bwrdd bod y cymorth a ddarperir yn cael effaith gadarnhaol. Mae gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth Ddigidol glir ar waith y mae'n bwriadu ei hadnewyddu yng nghyd-destun y strategaeth hirdymor newydd. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddo geisio mynd i'r afael â'r heriau staffio ac ariannu yn y

maes hwn er mwyn cynyddu gymaint â phosibl y manteision sy'n deillio o dechnolegau ac atebion digidol. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth Ystadau ar hyn o bryd. Yn ogystal â hynny, mae angen cryfhau trefniadau goruchwylio cyflwr yr ystad ar lefel y Bwrdd a chraffu ar raglenni a phrosiectau cyfalaf.

## Argymhellion

11 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Ceir crynodeb o ymateb sefydliadol y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2022**

**Gwella trefniadau llywodraethu gweinyddol**

A1 Canfuom gyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau llywodraethu gweinyddol, er mwyn gwella tryloywder cyhoeddus ac effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd, wneud yr hyn a ganlyn:

- cyhoeddi agendâu cyfarfodydd preifat y Bwrdd a'r pwyllgorau;
- cyhoeddi'r papurau ar gyfer holl gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd, y pwyllgorau, a chyfarfodydd chynghori ar ei wefan mewn modd amserol;
- diweddaru taflenni clawr adroddiadau er mwyn galluogi awduron i gysylltu eu hadroddiadau'n well â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a
- diweddaru taflenni clawr cyflwyniadau er mwyn galluogi awduron i grynhoi'r wybodaeth yn ddigonol a chipio'r risgiau a'r materion perthnasol.

**Defnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i lunio busnes y Bwrdd**

A2 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, nid yw'n cael ei ddefnyddio eto i lunio busnes y Bwrdd na'r pwyllgorau ar hyn o bryd. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn weithredol ac yn barhaus i lunio ac i lywio rhaglenni gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau.

**Cryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad**

A3 Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o heriau perfformiad hirsefydlog ar draws llawer o feysydd mewn gofal a gynlluniwyd a gofal brys ac argyfwng, sy'n arwain ato'n cael ei uwchgyfeirio i fonitro gwell oddi wrth y trefniadau arferol o dan Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd Llywodraeth Cymru. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei drefniadau rheoli perfformiad ac adrodd yn canolbwyntio'n briodol ar yr heriau allweddol y mae'n eu hwynebu mewn gofal a gynlluniwyd a gofal brys ac argyfwng, yn enwedig lle mae perfformiad yn y meysydd hynny'n gymharol waeth na Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru.

**Sefydlu canlyniadau mesuradwy ar gyfer blaenoriaethau strategol**

A4 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cadarnhaol wrth ddatblygu gweledigaeth hirdymor, nodau strategol a blaenoriaethau strategol ar gyfer y sefydliad. Fodd bynnag, nid oes gan y strategaeth newydd (CTM 2030) ganlyniadau clir a mesuradwy ar hyn o bryd. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd geisio cyflymu gwaith Grŵp Llywio a Grwpiau Strategaeth CTM 2030 wrth ddatblygu canlyniadau ar gyfer pob blaenoriaeth strategol, gan nodi sut byddai llwyddiant yn edrych, a nodi sut i fesur cynnydd ac adrodd arno. Wrth wneud hynny, dylai ystyried y berthynas rhwng nodau Strategaeth Iechyd y Boblogaeth a'r nodau strategol ehangach a dull 'cwrs bywyd' iechyd y cyhoedd a nodir yn CTM 2030.

**Gwella trefniadau ar gyfer monitro'r broses o gyflawni cynlluniau a strategaethau corfforaethol, a'r broses o adrodd i'r Bwrdd ar y cynnydd**

A5 Canfuom gyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau ar gyfer monitro'r broses o gyflawni cynlluniau a strategaethau corfforaethol, a'r broses o adrodd i'r Bwrdd ar y cynnydd Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau drwy sicrhau:

- bod cynlluniau a strategaethau yn cynnwys crynodebau clir o'r camau gweithredu/cyflawniadau allweddol, amserlenni, a mesurau i gefnogi gwaith monitro ac adrodd effeithiol;
- bod cynlluniau a strategaethau yn rhoi mwy o fanylion ynghylch pa Gyfarwyddwyr Gweithredol sy'n gyfrifol am gyflawni camau gweithredu/cyflawniadau allweddol er mwyn galluogi atebolrwydd priodol; a
- bod adroddiadau'n gyson ag adroddiadau perfformiad, er mwyn galluogi'r Bwrdd i asesu i ba raddau y mae rhoi camau gweithredu/cyflawniadau allweddol ar waith yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad y Bwrdd Iechyd.

**Cryfhau'r trefniadau rheoli ariannol**

A6 Gwnaethom nodi'r angen i'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau ar gyfer atal gwariant a chyflawni arbedion. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei drefniadau i sicrhau bod digon o afael a her o ran gwariant a chyflawni cynilion ar bob lefel o'r sefydliad.

**Cryfhau rheolaethau ariannol**

A7 Er bod gweithdrefnau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd yn effeithiol ar y cyfan, gwnaethom nodi cyfleoedd i gryfhau rhai rheolaethau ac i ddiweddaru'r wybodaeth sydd ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud yr hyn a ganlyn:

- adolygu'r terfyn ariannol dirprwyedig uchaf ar gyfer y Prif Weithredwr;
- sicrhau bod proses glir ar waith fel y gall y Bwrdd adolygu a chymeradwyo rhaglenni a phrosiectau cyfalaf; a
- sicrhau bod gweithdrefnau rheoli ariannol sydd wedi dyddio yn cael eu tynnu oddi ar ei wefan a'u disodli gan y fersiynau cyfredol.

**Gwella adroddiadau ariannol i'r Bwrdd**

A8 Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol i'r Bwrdd, gwnaethom nodi cyfleoedd i wella'r adroddiadau hyn ymhellach. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud yr hyn a ganlyn:

- rhoi mwy o sicrwydd bod camau lliniaru ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau ariannol allweddol a amlygir yn yr adroddiadau; ac
- adrodd ar berfformiad ariannol y Grwpiau Gofal newydd cyn gynted â phosibl.

**Manteisio gymaint â phosibl ar y buddion sy'n deillio o dechnolegau ac atebion digidol**

A9 Cyfyngedig yw'r capasiti yn y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei agenda trawsnewid digidol yn llawn. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd geisio nodi yn ei Strategaeth Ddigidol ar ei newydd wedd sut mae'n bwriadu goresgyn heriau staffio ac ariannu, er mwyn manteisio'n llawn ar yr hyn a gynigir gan dechnolegau ac atebion digidol.

**Cryfhau’r oruchwyliaeth o faterion a risgiau ystadau ar lefel y Bwrdd**

A10 Nid oes digon o oruchwyliaeth o gyflwr yr ystad a risgiau cysylltiedig sylweddol eraill ar lefel y Bwrdd ar hyn o bryd. Felly, dylai’r Bwrdd Iechyd, wneud yr hyn a ganlyn:

- sicrhau bod adroddiadau rheolaidd i’r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid ar ddangosyddion perfformiad sy’n gysylltiedig ag ystadau a risgiau;
- diweddaru Cylch Gorchwyl y pwyllgor er mwyn adlewyrchu’r cyfrifoldebau hyn; a
- sefydlu proses glir ar gyfer sicrhau bod materion yn cael eu croesgyfeirio’n briodol gyda’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, sy’n goruchwylio materion iechyd a diogelwch.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

12 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein safbwyntiau ar drefniadau llywodraethu y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau;
- y graddau y mae cynllun y sefydliad yn cefnogi llywodraethu da; a
- systemau sicrwydd allweddol.

13 Darperir manylion y cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol o ran trefniadau llywodraethu y Bwrdd Iechyd yn **Arddangosyn 2**.

14 Canfuom fod **trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth y Bwrdd Iechyd yn gwella, a bod strwythurau sefydliadol yn cael eu hadnewyddu er mwyn cefnogi gwelliannau pellach. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei systemau sicrwydd ymhellach er mwyn mynd i'r afael yn llawn â'r heriau perfformiad sy'n wynebu'r sefydliad.**

### Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau

15 Gwnaethom ni ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cynnal eu busnes yn effeithiol ac yn cefnogi llywodraethu da. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:

- a yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn dangos lefelau priodol o dryloywder cyhoeddus;
- a yw cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn briodol gan Gynlluniau Dirprwyo clir, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, a Chofrestrau Buddiannau;
- a oes strwythur pwyllgor priodol islaw'r Bwrdd sy'n gweithio'n dda;
- a yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cael yr wybodaeth gywir, gan gynnwys safbwyntiau'r staff a defnyddwyr y gwasanaeth; ac
- a oes tystiolaeth o hunanadolygu digonol gan y Bwrdd a'i bwyllgorau.

16 Canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgor yn effeithiol ar y cyfan, gyda thystiolaeth o waith craffu da, her a hunanfyfyrdod. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i wella trefniadau gweinyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd.**

17 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gynnal ei fusnes mewn modd agored; fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i wella trefniadau gweinyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd. Mae holl gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn cael eu ffrydio'n fyw er mwyn caniatáu i'r cyhoedd arsylwi'n rhithwir, ac mae recordiadau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn ffrydio'n fyw nac yn cofnodi cyfarfodydd ei bwyllgorau. Cyfyngir cymaint â phosibl ar sesiynau preifat y Bwrdd a'r pwyllgorau, ac fe'u cedwir ar gyfer materion cyfrinachol a sensitif yn unig. Fodd bynnag, nid yw'r agendâu ar gyfer

cyfarfodydd preifat y Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael eu cyhoeddi gyda'r papurau cyhoeddus ar gyfer y cyfarfodydd **(Argymhelliad 1a)**. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dosbarthu papurau y Bwrdd a'r pwyllgorau i'r rhai a fydd yn bresennol, cyn cyfarfodydd. Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad o'r wefan fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud yr hyn a ganlyn:

- methu â chyhoeddi papurau ar gyfer rhai o'r cyfarfodydd. Er enghraifft, nid oes unrhyw bapurau ar gael ar gyfer y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ers mis Rhagfyr 2019, ac mae papurau'r cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2022 ar goll.
- wedi cyhoeddi setiau o bapurau anghyflawn ar gyfer rhai cyfarfodydd. Er enghraifft, mae llawer o bapurau ar goll ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd yn 2022, megis yr wybodaeth ddiweddaraf reolaidd a ddarperid gan archwiliad mewnol ac allanol.

Dylai'r Bwrdd Iechyd weithredu i fynd i'r afael â hyn er mwyn galluogi tryloywder llawn (**Argymhelliad 1b**).

18 Mae trefniadau llywodraethu y Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r broses o gynnal busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau yn effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu ei Reolau Sefydlog, ei Gynlluniau Cadw a Dirprwyo, ei Bolisi Safonau Ymddygiad, a'i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn briodol ac yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i gryfhau rhai rheolaethau ymhellach (trafodir hyn ymhellach ym **mharagraff 68**). Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi paratoi fframwaith sicrwydd i helpu i egluro ei swyddogaeth a'i gyfrifoldebau mewn cysylltiad â'r sefydliadau y mae'n eu cynnal[1]. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau, Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd, a adolygwyd ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2022, yn rheolaidd. Mae Cofrestr Datganiadau o Fuddiannau Aelodau'r Bwrdd ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.

19 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith sefydlog, medrus a phrofiadol o Aelodau Annibynnol. Canfuom fod gan aelodau Annibynnol a Gweithredol y Bwrdd berthynas iach, sydd yn ei dro yn hwyluso llif gwybodaeth anffurfiol a ffurfiol. Rydym hefyd wedi arsylwi Aelodau Annibynnol yn cynnig cydbwysedd da o her a chefnogaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Ar adeg ein hadolygiad, roedd y Bwrdd Iechyd yn ceisio penodi Cadeirydd parhaol i gymryd lle'r Cadeirydd interim ym mis Mawrth 2023.

20 Mae gan y Bwrdd Iechyd strwythur pwyllgor sefydlog sydd wedi ei wreiddio'n dda. Mae gan bob pwyllgor gylch gorchwyl clir, sy'n adlewyrchu'n briodol y rhan fwyaf o fusnes y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae bwlch yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid mewn cysylltiad â goruchwylio materion sy'n ymwneud ag ystad y Bwrdd Iechyd (trafodir hyn ymhellach ym **mharagraff 88**). Mae cadeiryddion pwyllgorau yn cyfrannu'n weithredol at y gwaith o osod agendâu ac mae rhaglenni gwaith clir yn cael eu nodi. Ond mae cyfleoedd yn bodoli i wneud

[1] Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, ac Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru.

rhagor o ddefnydd o Fframwaith Sicrwydd newydd y Bwrdd wrth lunio busnes y pwyllgorau (trafodir hyn ymhellach ym **mharagraff 31**). Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda ac fe'u cynhelir yn brydlon. Mae cadeiryddion pwyllgorau yn cwrdd yn rheolaidd ac mae yna groesgyfeiriad da o faterion rhwng pwyllgorau ac uwchgyfeirio hyd at y Bwrdd.

21 Mae'r Bwrdd Iechyd yn paratoi papurau o ansawdd da ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd a'r pwyllgorau, sy'n darparu digon o fanylion i alluogi gwaith craffu a gwneud penderfyniadau. Er bod taflenni clawr adroddiadau yn dda ar y cyfan, gallent fod yn fwy eglur o ran eu cysylltiadau â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (**Argymhelliad 1c**). Hefyd, er bod y Bwrdd Iechyd wedi paratoi taflen glawr i gyd-fynd â chyflwyniadau, nid yw'n galluogi cyflwynwyr i grynhoi gwybodaeth yn ddigonol nac yn cipio'r risgiau a'r materion perthnasol ar hyn o bryd **(Argymhelliad 1d)**.

22 Mae'r Bwrdd yn dangos ymrwymiad da i glywed gan staff a chleifion. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn cael stori claf ym mhob cyfarfod, ac mae hyn hefyd yn cynnwys sylwadau gan staff. Mae teithiau cerdded, sy'n darparu cyfleoedd da i Aelodau Annibynnol ymgysylltu'n uniongyrchol â staff ar draws gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac acíwt, hefyd wedi ailddechrau. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi gwneud gwaith ymgysylltu â staff pwrpasol mewn meysydd penodol, megis gwasanaethau mamolaeth, ac mae'r canlyniadau'n cael eu defnyddio'n weithredol i lunio rhaglenni gwaith diwylliant ac arweinyddiaeth y sefydliad. Mae'r Bwrdd hefyd wedi sicrhau bod staff wedi cymryd rhan weithredol yn natblygiad strategaeth hirdymor newydd y Bwrdd Iechyd.

23 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer hunanadolygu a gwella'r Bwrdd a'r pwyllgorau. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn asesu eu heffeithiolrwydd yn flynyddol ac yn paratoi cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi a materion y mae angen eu gwella. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o sesiynau datblygu i gefnogi'r Bwrdd i ddysgu a datblygu. Defnyddiwyd y sesiynau hyn hefyd yn ystod 2021–22 i gefnogi datblygiad Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac i lunio gweledigaeth, nodau strategol a blaenoriaethau hirdymor y sefydliad. Mae'r Cadeirydd interim wedi cynnal Adolygiadau Datblygu Personol gyda'r holl Aelodau Annibynnol ac mae system gyfeillio ar waith i alluogi Aelodau Annibynnol i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

## Arweinyddiaeth a dyluniad sefydliadol

24 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae strwythur sefydliadol y Bwrdd Iechyd yn cefnogi llywodraethu effeithiol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:

- mae cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn glir, ac mae ganddynt bortffolios gwaith cytbwys a theg;

- mae eglurder ynglŷn â swyddogaeth y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifennydd y Bwrdd), ac mae adnoddau digonol ar waith i gefnogi gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau; ac
- mae'r strwythur sefydliadol yn cefnogi llywodraethu effeithiol ac yn hwyluso gweithio ar draws y system gyfan.

25 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn cael ei arwain gan Dîm Gweithredol cymharol sefydlog, a gwnaed newidiadau cadarnhaol i swyddogaeth y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol i'w alluogi i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar drefniadau llywodraethu y Bwrdd Iechyd. Er bod model gweithredu newydd wedi ei gytuno arno, bydd yn cymryd amser i'r strwythurau newydd ymwreiddio ac i gyflawni'r buddion a'r gwelliannau bwriadedig.**

26 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i gryfhau a sefydlogi ei Dîm Gweithredol yn ogystal â sicrhau bod gan Gyfarwyddwyr Gweithredol gyfrifoldebau clir a phortffolios gwaith cytbwys a theg. Penodwyd Cyfarwyddwr Meddygol parhaol ym mis Gorffennaf 2022, a phenodwyd Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd llawn amser ym mis Ebrill 2022 yn dilyn diwedd y penodiad tymor penodol ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Rhoddwyd trefniadau interim priodol ar waith yn dilyn ymadawiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ym mis Tachwedd 2022. Roedd y broses recriwtio ar gyfer y swyddi hyn ar y gweill adeg ein hadolygiad.

27 Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn darparu cefnogaeth dda i'r Bwrdd a'i bwyllgorau, er nad oes ganddo gyflenwad llawn o staff. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diwygio swyddogaeth y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yn dilyn ymadawiad deiliad blaenorol y swydd. O ganlyniad i hynny, mae'r cyfrifoldeb gweithredol am archwilio clinigol a 'Gweithio i Wella' (rheoli pryderon, gwneud iawn, hawliadau, ac ymgyfreitha) wedi ei drosglwyddo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio. Yn gadarnhaol, bydd hyn yn caniatáu i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol newydd ganolbwyntio'n llwyr ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd.

28 Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig o greu model gweithredu newydd ym mis Mawrth 2022, gyda'r nod o wneud yr hyn a ganlyn:

- cefnogi adferiad yn sgil y pandemig;
- gwella ansawdd y gwasanaeth;
- symleiddio trefniadau rheoli; a
- hwyluso cydweithio ar draws y Bwrdd Iechyd.

O dan y model newydd, mae'r Grwpiau Ardal Integredig wedi cael eu disodli gan Grwpiau Gofal[2] newydd ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r model newydd yn cadw

[2] Mae chwe Grŵp Gofal ar y cyfan: Grŵp Gofal a Gynlluniwyd; Grŵp Gofal heb ei Drefnu; Grŵp Gofal Plant a Theuluoedd; Grŵp Gofal Diagnosteg, Therapïau ac Arbenigeddau; Grŵp Gofal Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu; a'r Grŵp Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

gweithio ardal, ond cynhelir y gwaith rheoli a goruchwylio ar lefel Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn bwriadu aildrefnu ac adlinio ei swyddogaethau corfforaethol i gefnogi'r model gweithredu newydd. Mae'r Bwrdd wedi cynnal goruchwyliaeth dda o'r broses o ddatblygu a gweithredu'r model gweithredu newydd. Fodd bynnag, bydd yn cymryd amser i'r strwythurau newydd ymwreiddio ac i gyflawni'r buddion a'r gwelliannau bwriadedig.

## Systemau sicrwydd

29 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n goruchwylio ac yn craffu ar risgiau sefydliadol, perfformiad, ac ansawdd y gwasanaethau, gan eu herio nhw. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:

- a oes Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd effeithiol ar waith, a adolygir yn weithredol ac y mae'r Bwrdd yn gyfrifol amdano;
- a yw Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi ei danategu gan systemau priodol ar gyfer rheoli risgiau a pherfformiad, a thrin gwybodaeth mewn modd diogel; ac
- a yw camau effeithiol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion archwilio ac i'w hadolygu nhw.

30 Canfuom, **er bod systemau sicrwydd y Bwrdd Iechyd yn effeithiol ar y cyfan, fod angen iddo gryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad er mwyn mynd i'r afael â'r heriau gweithredol presennol.**

31 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cadarnhaol wrth ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Roedd y Bwrdd yn chwarae rhan weithredol wrth ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, cyn ei gymeradwyo'n ffurfiol ym mis Mawrth 2022 (gweler **Arddangosyn 2, 2021 (Cam 2) A4**). Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn adlewyrchu nodau strategol y Bwrdd Iechyd yn briodol ac yn darparu gwybodaeth dda am fylchau mewn rheolaethau a sicrwydd, yn ogystal â chamau lliniaru. Mae'r Bwrdd yn cael ac yn adolygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ym mhob cyfarfod cyhoeddus. Er bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn awr i fynd ati i lunio a hysbysu busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau **(Argymhelliad 2)**.

32 Mae trefniadau rheoli risg y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu. Cymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth Rheoli Risg ddiweddaredig ym mis Mawrth 2022, a gefnogir gan bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr a chyfredol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau ei gofrestr risg sefydliadol (corfforaethol), ac mae tystiolaeth dda bod risgiau'n cael eu rheoli'n weithredol. Fodd bynnag, mae lle i gryfhau'r camau lliniaru risgiau. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cymryd camau cadarnhaol i gryfhau cofrestrau risg gweithredol drwy gynnwys yr holl risgiau ar DATIX[3], yn hytrach na risgiau sgorio wyth ac uwch fel oedd yn digwydd o'r blaen. Mae'r Tîm Gweithredol

[3] System cofnodi digwyddiadau a rheoli risgiau ar y we a ddefnyddir gan sefydliadau gofal iechyd yw Datix.

hefyd wedi adlinio risgiau sefydliadol i'r model gweithredu newydd, ac mae gwaith ar y gweill i uno a gwella cynnwys cofrestrau risg gweithredol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu hyfforddiant rheoli risgiau i dros 360 o aelodau staff, a bydd yn parhau i gynnig yr hyfforddiant hwn drwy gydol 2023 a thu hwnt. Dechreuodd yr hyfforddiant cyn cyflwyno'r model gweithredu newydd. Er ei fod yn cefnogi'r staff hynny sy'n newid swyddogaethau ac yn dilyn yr hyfforddiant yn eu strwythur newydd, bydd yr hyfforddiant yn parhau y tu hwnt i weithrediad y model. Mae hefyd yn agored i dimau corfforaethol/canolog.

33 Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer adrodd ar berfformiad i'r Bwrdd, mae ei berfformiad yn parhau i fod y gwaethaf yng Nghymru mewn nifer o feysydd. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau cynhwysfawr ar berfformiad y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru a meysydd blaenoriaeth eraill i'r sefydliad. Mae'r adroddiadau'n fanwl ac yn rhoi trosolwg da o safbwynt y Bwrdd Iechyd o gymharu ag ystod o ddangosyddion cyllid, ansawdd, perfformiad a gweithlu. Mae adroddiadau hefyd yn tynnu sylw at risgiau a meysydd sy'n peri pryder, ac yn amlinellu'r camau a gymerir i wella perfformiad gweithredol. Mae tystiolaeth dda hefyd o waith craffu a her briodol gan y Bwrdd. Yn weithredol, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sefydlu trefniadau newydd ar gyfer dwyn timau i gyfrif am berfformiad yn unol â'r model gweithredu newydd. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau gwella y Bwrdd Iechyd wedi eu gwireddu eto, ac mae ei berfformiad mewn nifer o feysydd yn parhau i fod y gwaethaf yng Nghymru. O ganlyniad i hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei uwchgyfeirio o drefniadau arferol i fonitro gwell ar gyfer perfformiad o dan Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd [4] Llywodraeth Cymru (**Argymhelliad 3**).

34 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar gyfer goruchwylio llywodraethu gwybodaeth ar lefel pwyllgor, ond mae angen gwella rhai trefniadau gweithredol. Mae'r Pwyllgor Digidol a Data yn cael adroddiadau rheolaidd ar weithgareddau a chynlluniau gwella y Bwrdd Iechyd mewn cysylltiad â diogelu data a diogelwch gwybodaeth, ac mae'n darparu gwaith craffu a her dda. Yn weithredol, mae angen cryfhau trefniadau seibergadernid y Bwrdd Iechyd. Ym mis Rhagfyr 2022, asesodd Uned Seibergadernid GIG Cymru drefniadau'r Bwrdd Iechyd a chanfu fod cydymffurfiaeth yn llai na 50% mewn pump o'r 28 o barthau a adolygwyd. O ganlyniad i hynny, rhoddodd yr Uned gyfanswm o 134 o argymhellion i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, mae diffyg adnoddau yn y maes hwn yn debygol o rwystro gallu'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn yn llawn.

35 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau cadarnhaol i wella ei drefniadau ar gyfer olrhain argymhellion mewnol ac allanol, ond mae angen gwelliannau ychwanegol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu'r cynnydd o'i gymharu â'r holl argymhellion hirsefydlog, a chafodd nifer o argymhellion eu cau neu neilltuwyd dyddiadau gweithredu diwygiedig iddynt yn dilyn yr ymarfer hwn. O fis Rhagfyr

[4] Mae pedair lefel uwchgyfeirio: trefniadau arferol, monitro uwch, ymyrraeth wedi ei thargedu, a mesurau arbennig.

2022, roedd 75 o argymhellion Archwilio Mewnol a oedd yn dal heb eu cwblhau yr oedd eu dyddiad gweithredu wedi mynd heibio, ac wyth ar gyfer Archwilio Cymru. Er bod adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn dda ar y cyfan, mae lle i wella'r adroddiad cryno i ddarparu gwybodaeth ddiweddaraf fwy ffurfiol i'r pwyllgor ar gau argymhellion, ac ar eu tynnu oddi ar y traciwr yn sgil hynny. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau ar gyfer olrhain argymhellion a wneir gan gyrff archwilio a rheoleiddio allanol yn unol â'r argymhelliad a wnaethom yn ein hadroddiad asesu strwythuredig yn 2018 (gweler **Arddangosyn 1, 2018 A6**). Dylai'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn heb oedi pellach, er mwyn galluogi'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch i fonitro a chraffu ar y cynnydd, a'i herio'n effeithiol.

**Arddangosyn 2: y cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Argymhellion Archwilio**<br><br>2018 A6: Dylid ehangu'r traciwr argymhellion archwilio i gynnwys argymhellion asiantaethau allanol eraill e.e. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Uned Gyflawni. | **Dim cynnydd**<br><br>Nid yw'r trefniadau wedi eu sefydlu eto. |
| **Y niwed Uniongyrchol ac Anuniongyrchol sy'n deillio o COVID-19**<br><br>2021 (Cam 2) A5: Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith penodol o ran marwolaethau a niwed mewn cysylltiad â COVID-19. Fodd bynnag, fel Byrddau Iechyd eraill, nid yw wedi cwblhau fframwaith safonol i gefnogi'r asesiad o niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â COVID-19 eto. Dylai'r Bwrdd Iechyd lunio fframwaith ar gyfer asesu'r niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n deillio COVID-19, a sicrhau bod y fframwaith ac adroddiad cysylltiedig sy'n amlinellu | **Ar y Gweill**<br><br>Mae Tîm Rheoli Digwyddiadau COVID-19 Nosocomial wedi ei sefydlu. Mae dulliau llywodraethu mewnol hefyd ar waith, gan gynnwys grŵp goruchwylio sy'n adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.<br><br>Mae gwaith ymchwiliol wedi dechrau yn unol â'r fframwaith cenedlaethol y cytunwyd arno.<br><br>Ers mis Ebrill 2022, bu adroddiadau cynnydd misol i'r Uned Gyflawni. Mae dros 3,200 o adolygiadau i'w cynnal a ddigwyddodd cyn diwedd mis Ebrill |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| materion allweddol yn cael eu monitro gan grwpiau gweithredol strategol, priodol a'u bod yn adrodd ar y Bwrdd neu un o'i bwyllgorau. | 2022. Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2022, adroddwyd 408 o achosion eraill hefyd.<br><br>Ym mis Awst 2022, adolygodd yr Uned Gyflawni hunanasesiad cynnydd rhaglen y Bwrdd Iechyd. Cafodd holl ffrydiau gwaith y rhaglen sgôr 'sicrwydd rhesymol' neu uwch. |
| **Eglurder ar statws busnes gohiriedig y Bwrdd**<br><br>2021 (Cam 2) A1: Canfu ein hadolygiad nad yw pob pwyllgor yn rhoi eglurder ar statws eitemau gohiriedig busnes y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob pwyllgor yn glir ynghylch statws cyfredol eitemau busnes gohiriedig, ag amserlen ddangosol ar gyfer pryd y byddant yn cael eu dwyn yn ôl i reolaeth weithredol. | **Cwblhawyd**<br><br>Mae'r holl bwyllgorau yn glir ynghylch statws cyfredol busnes gohiriedig. |
| **Adolygiad Grŵp Ardal Integredig**<br><br>2021 (Cam 2) A2: Dirprwyir gweithgarwch trawsnewid a gwella sylweddol i Grwpiau Ardal Integredig y Bwrdd Iechyd. Yn rhan o'i adolygiad o'i fodel gweithredu, dylai'r Bwrdd Iechyd werthuso capasiti a gallu pob Grŵp Ardal Integredig i gyflawni maint y newid sydd ei angen. | **Cwblhawyd**<br><br>Yn 2021, sefydlodd y Bwrdd Iechyd gyfarwyddiaeth newydd—Gwella CTM—dan arweiniad Cyfarwyddwr Gwella ac Arloesi newydd.<br><br>Mae pwyslais cliriach ar yr hyn y bydd y tîm hwn yn ei wneud a sut y bydd yn cefnogi staff gweithredol, gan fanylu ar eitemau i'w cyflawni yn ei Gynllun Busnes 2022–25. |
| **Risgiau Strategol**<br><br>2021 (Cam 2) A4: Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo chwe risg i gyflawni blaenoriaethau strategol sy'n gyson â'r pedwar amcan llesiant strategol a | **Cwblhawyd**<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu a gweithredu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd diwygiedig sy'n dal naw risg |

| Argymhelliad | Disgrifiad o’r cynnydd |
| --- | --- |
| chenedlaethau’r dyfodol a nodir yng Nghynllun Blynyddol 2021–22 y Bwrdd Iechyd. Ar hyn o bryd, gyda dim ond chwe risg strategol, mae’n bosibl eu bod yn rhy uchel i ganiatáu gwaith craffu ystyrlon. Mae angen i’r Bwrdd sicrhau hefyd fod ei risgiau strategol yn adlewyrchu’r risgiau i gyflawni’r blaenoriaethau a nodir yn ei Gynllun Blynyddol, y Cynllun Adfer Gofal a Gynlluniwyd, camau gweithredu i fynd i’r afael â statws ei fesurau arbennig a’i ymyrraeth wedi’i thargedu a’r cyfeiriad teithio i’w nodi yn y strategaeth hirdymor sy’n dod i’r amlwg. | strategol/prif risg sy’n gyson â strategaeth y Bwrdd Iechyd.<br>Ym mis Mawrth 2022, cytunodd y Bwrdd Iechyd ar Fframwaith Sicrwydd Bwrdd diwygiedig, a chafodd y Bwrdd ef yn ffurfiol am y tro cyntaf yn ei gyfarfod ym mis Mai 2022. |

# Trefniadau cynllunio strategol

36 Yn yr adran hon o’r adroddiad, rydym yn rhoi ein safbwyntiau ar drefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio’n benodol ar yr hyn a ganlyn:

- gweledigaeth ac amcanion strategol y sefydliad;
- Cynllun Tymor Canolig Integredig y sefydliad;
- trefniadau cynllunio y sefydliad;
- trefniadau’r sefydliad ar gyfer gweithredu a monitro’r broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

37 Darperir manylion y cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol o ran trefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd yn **Arddangos 3**.

38 Canfuom fod **trefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd yn parhau i wella, a bod cynnydd cadarnhaol wedi ei wneud wrth ddatblygu gweledigaeth a strategaeth hirdymor glir ar gyfer y sefydliad. Mae’n rhaid i baratoi Strategaeth Glinigol a Chynllun Tymor Canolig Integredig gymeradwy, a gwella trefniadau adrodd, barhau i fod yn flaenoriaethau allweddol i’r Bwrdd Iechyd.**

## Gweledigaeth ac amcanion strategol

39 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gweledigaeth glir a strategaeth hirdymor ar waith yn y sefydliad. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:

- a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac wedi eu gwreiddio mewn dadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau, a risgiau;
- a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol wedi eu datblygu a'u mabwysiadu gan y Bwrdd; ac
- a oes strategaeth clinigol hirdymor priodol sy'n tanategu'r strategaeth hirdymor.

40 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd nodau a blaenoriaethau hirdymor strategol clir sy'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu ei strategaeth glinigol.**

41 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei strategaeth hirdymor ar gyfer y sefydliad, 'CTM 2030—Ein Iechyd, Ein Dyfodol'. Ym mis Gorffennaf 2021, cymeradwyodd y Bwrdd weledigaeth glir ar gyfer y Bwrdd Iechyd, a thanategir gan bedwar nod strategol—Creu Iechyd, Gwella Gofal, Ysbrydoli Pobl a Chynnal Ein Dyfodol. Mae gan bob un o'r nodau strategol bedair blaenoriaeth glir ar gyfer gweithredu a byddant yn cael eu cyflawni drwy weithredu 'cwrs bywyd' iechyd cyhoeddus ar draws pum maes strategol—Dechrau'n Dda, Tyfu'n Dda, Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda, a Marw'n Dda.

42 Mabwysiadodd y Bwrdd y weledigaeth, y nodau strategol a'r blaenoriaethau yn ffurfiol ym mis Mawrth 2022. Gwnaed hyn yn dilyn ymgysylltiad helaeth â staff, preswylwyr, partneriaid a rhanddeiliaid eraill ar anghenion y boblogaeth yn ogystal â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu gwasanaethau gofal iechyd yn y rhanbarth dros y deng mlynedd nesaf. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu Strategaeth Glinigol ar gyfer y sefydliad yng nghyd-destun CTM 2030. Nod y Bwrdd Iechyd yw cael ei Strategaeth Glinigol y cytunwyd arni, 'CTM 2030—Gwasanaethau Clinigol y Dyfodol', ar waith erbyn mis Gorffennaf 2023.

## Cynllun Tymor Canolig Integredig

43 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy ar gyfer 2022–2025. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:

- a gyflwynwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig o fewn yr amserlen ofynnol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- a drafodwyd fersiynau drafft a therfynol y Cynllun Tymor Canolig Integredig; a gawsant eu herio, ac a gytunodd y Bwrdd arnynt cyn iddynt gael eu cyflwyno; ac
- a gymeradwyodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

44 Canfuom **nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n gytbwys yn ariannol ac wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022–2025.**

45 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2022–2025 sy'n gytbwys yn ariannol ac sydd wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru oherwydd ei sefyllfa ariannol heriol. Yn hytrach, paratôdd y Bwrdd Iechyd gynllun tair blynedd lefel uchel, gyda phwyslais penodol ar y camau y teimlai y gallai eu cyflawni yn 2022–23. Gwnaeth y Bwrdd drafod, cymeradwyo a chyflwyno'r cynllun lefel uchel i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2022.

46 Yn dilyn trafodaethau â Llywodraeth Cymru, diweddarodd y Bwrdd Iechyd y cynllun i fod yn Gynllun Blynyddol ar gyfer 2022–23 sy'n cynnwys rhagor o fanylion am adfer yn sgil gofal heb ei drefnu a gofal a gynlluniwyd. Cyflwynwyd Cynllun Blynyddol 2022–23 i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2022, ac fe'i cymeradwywyd yn ôl-weithredol gan y Bwrdd ym mis Mai 2022.

47 Mae anallu'r Bwrdd Iechyd i lunio Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy wedi ei arwain at gael ei uwchgyfeirio o drefniadau arferol i fonitro uwch ar gyfer cynllunio a chyllid o dan Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd Llywodraeth Cymru.

## Trefniadau cynllunio ehangach

48 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol o'r broses ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:

- a ystyrir egwyddorion gofal iechyd pwyllog ac ar sail gwerth mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol, ac a ydynt yn cael eu hadlewyrchu; ac
- a ddatblygwyd strategaethau a chynlluniau corfforaethol mewn cysylltiad â rhanddeiliaid mewnol ac allanol perthnasol;

49 Canfuom fod **dull cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd yn gwella, a bod tystiolaeth o ymgysylltu da â rhanddeiliaid a goruchwyliaeth ar lefel y Bwrdd.**

50 Mae'r Bwrdd wedi cynnal goruchwyliaeth effeithiol o drefniadau'r sefydliad ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol, yn enwedig CTM 2030. Mae'r Bwrdd wedi bod chwarae rhan weithredol wrth lunio'r weledigaeth hirdymor, y nodau strategol, a'r blaenoriaethau ar gyfer CTM 2030 drwy weithdai, sesiynau datblygu, a thrafodaethau rheolaidd yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd. Mae'r adroddiadau a gyflwynir i'r Bwrdd yn rhoi trosolwg da o'r strategaeth a ddatblygir ac maent yn nodi'n glir lle mae angen cyfraniad ffurfiol gan y Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid hefyd yn darparu trosolwg effeithiol o'r trefniadau ar gyfer datblygu CTM 2030 a pharatoi Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023–2026. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi creu capasiti ychwanegol i baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023–2026 ac i ddatblygu strategaethau a chynlluniau galluogi sy'n ymwneud â'r gweithlu, yr ystad a gwasanaethau digidol yng nghyd-destun CTM 2030.

51 Adlewyrchir egwyddorion Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth yn glir yn CTM 2030 a Chynllun Blynyddol 2022–23 y Bwrdd Iechyd. Mae Cynllun Cyflawni Strategol Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth y Bwrdd Iechyd yn rhan o Gynllun Busnes y

Gyfarwyddiaeth Gwella ac Arloesi ac mae'n cynnwys cynlluniau clir ar gyfer datblygu Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth ar draws y sefydliad, gyda phwyslais penodol ar fethiant y galon, gofal lliniarol, diabetes, a meysydd rhaglenni ehangach gan gynnwys lymffoedema, llid yr isgroen, a gwasanaethau cyswllt alcohol. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun cyflawni cyllid clir ar waith sy'n gyson â blaenoriaethau a chanllawiau Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth cenedlaethol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu sefydlu trefniadau rheoli ac adrodd ar raglenni cyson i gefnogi cynnydd ar brosiectau a'r gwaith o oruchwylio prosiectau.

52 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull cadarnhaol ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae wedi dangos ymgysylltiad cryf ag ystod amrywiol o'r rhanddeiliaid wrth ddatblygu CTM 2030, gan ddefnyddio ystod o ddulliau i ymgysylltu â thrigolion, staff a phartneriaid allanol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cynnwys y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid wrth ddatblygu strategaethau. Fodd bynnag, fel y nodir ym **mharagraff 17**, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyhoeddi papurau ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ar ei wefan ers mis Rhagfyr 2019. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu'n weithredol â Byrddau Iechyd eraill i archwilio, nodi a gweithredu atebion rhanbarthol i faterion a heriau a rennir, megis cynyddu capasiti patholeg. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ymgysylltu'n effeithiol â'r Cyngor Iechyd Cymuned, yn enwedig o ran newidiadau i wasanaethau.

## Gweithredu a threfniadau monitro

53 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu ar y broses o weithredu ac o ddarparu strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan eu herio nhw. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:

- a yw strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn cynnwys cerrig milltir, targedau, a chanlyniadau clir sy'n cynorthwyo'r gwaith monitro ac adrodd; ac
- a yw'r Bwrdd yn cael adroddiadau cynnydd yn rheolaidd er mwyn darparu strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

54 Canfuom yn gyffredinol fod **strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn brin o ganlyniadau, cerrig milltir a thargedau clir, sy'n atal y gwaith o fonitro ac adrodd yn effeithiol ar gynnydd.**

55 Er bod CTM 2030 yn pennu cyfeiriad teithio clir i'r Bwrdd Iechyd, nid oes ganddo ganlyniadau clir a mesuradwy ar hyn o bryd. Mae Grŵp Llywio a Grwpiau Strategaeth CTM 2030 yn datblygu canlyniadau ar gyfer pob blaenoriaeth strategol ar hyn o bryd, gan nodi sut byddai llwyddiant yn edrych, a nodi sut i fesur cynnydd ac adrodd arno. Fodd bynnag, mae lle i gyflymu cyflymder y gwaith hwn. Hefyd, er bod Cynllun Blynyddol 2022–23 yn cyfeirio at nodau Strategaeth Iechyd y Boblogaeth y Bwrdd Iechyd, nid yw'n glir sut maent yn ymwneud â'r nodau strategol ehangach a dull 'cwrs bywyd' iechyd y cyhoedd a nodir yn CTM 2030 **(Argymhelliad 4)**.

56 Mae Cynllun Blynyddol 2022–23 yn cynnwys ystod o wahanol gamau/cyflawniadau, amserlenni a mesurau, y mae rhai ohonynt yn ymwneud â'r

nodau a’r blaenoriaethau strategol a nodir yn CTM 2030. Fodd bynnag, noda sylwadau mewn adolygiad gan gymheiriaid ar Gynllun Blynyddol 2022–23 fod diffyg eglurder ynghylch beth yw uchelgais a beth sy’n gyflawnadwy. Canfu ein hadolygiad o Gynllun Blynyddol 2022–23 hefyd nad yw camau gweithredu/cyflawniadau allweddol, amserlenni, na mesurau yn cael eu crynhoi na’u cyflwyno mewn ffordd sy’n caniatáu i gynnydd gael ei fonitro a’i adrodd yn effeithiol fesul chwarter (**Argymhelliad 5a**). Yn ogystal â hynny, nid oes gan Gynllun Blynyddol 2022–23 fanylion am ba Gyfarwyddwyr Gweithredol sy’n gyfrifol am sicrhau bod camau gweithredu/cyflawniadau allweddol yn cael eu cyflawni, sydd felly’n cyfyngu ar gyfleoedd i sicrhau atebolrwydd priodol (**Argymhelliad 5b**).

57 Mae’r Bwrdd Iechyd yn darparu’r wybodaeth ddiweddaraf ar gyflawni strategaethau corfforaethol a chynlluniau i’r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid yn rheolaidd. Mae’r Bwrdd hefyd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni Cynllun Blynyddol 2022–23 fesul chwarter (gweler **Arddangosyn 3, 2001 (Cam 2) A2**). Fodd bynnag, mae’r adroddiadau ar lefel uchel iawn o ran eu natur ac nid ydynt yn darparu digon o wybodaeth i alluogi gwaith craffu, her a sicrwydd llawn. Hefyd, nid yw’r adroddiadau’n gyson â’r adroddiadau perfformiad a gyflwynwyd i’r Bwrdd. O ganlyniad i hynny, nid yw’r Bwrdd yn gallu asesu i ba raddau y mae’r cynnydd ar y trywydd iawn, ac i ba raddau y mae rhoi camau gweithredu/cyflawniadau allweddol ar waith yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad y Bwrdd Iechyd **(Argymhelliad 5c)**.

**Arddangosyn 3: y cynnydd a wnaed o'i gymharu ag argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Targedau a Cherrig Milltir**<br><br>2021 (Cam 1) A1: Yn ystod ein gwaith Asesu Strwythuredig yn 2021, canfuom nad oedd Cynllun Chwarter 3–4 yn pennu targedau na cherrig milltir mesuradwy penodol. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cynlluniau blynyddol yn nodi targedau a cherrig milltir clir ac yn sicrhau adroddiadau effeithiol ar gynnydd, effaith a chanlyniadau. | **Disodlwyd**<br><br>Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei ddisodli gan argymhelliad newydd (gweler **Arddangosyn 1—R6a**) |
| **Craffu Annibynnol Aelodau ar gyflawni cynlluniau gweithredol**<br><br>2021 (Cam 1) A2: Yn ystod ein gwaith Asesu Strwythuredig yn 2021, ni chanfuom unrhyw waith craffu gan y Bwrdd na'i bwyllgorau ar gyflawniadau'r cynlluniau chwarterol. Dylai'r Bwrdd Iechyd egluro'r cyfrifoldeb dros oruchwyliaeth ar lefel strategol o ran monitro'r modd y cyflawnir Cynllun Blynyddol 2021–22. | **Cwblhawyd**<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn llunio ac yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf fesul chwarter i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid ar y cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Blynyddol. |
| **Rhaglen Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd**<br><br>2021 (Cam 2) A3: Mae Cynllun Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd y Bwrdd Iechyd yn nodi sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynyddu gweithgarwch, lleihau amseroedd aros, a gwella'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau. Canfuom, er y darperir gwybodaeth gryno i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid, nad oedd yn ddigon clir. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddarparu | **Cwblhawyd**<br><br>Darperir yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid ar y Rhaglen Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd. Ysgrifennir a chyflwynir yr wybodaeth ddiweddaraf yn dda, ac mae'n manylu ar y perfformiad o'i gymharu â'r taflwybr. |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| rhagor o fanylion am y cynnydd cyfredol o'i gymharu â'r broses o gyflawni'r Cynllun Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd o'i gymharu â'r targedau a bennwyd a'r gweithgarwch disgwyliedig. | |

# Rheoli adnoddau ariannol

58 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein safbwyntiau ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn a ganlyn:

- trefniadau ar gyfer bodloni amcanion ariannol allweddol.
- rheolaethau ariannol;
- trefniadau ar gyfer adrodd a monitro'r perfformiad ariannol.

59 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau clir ar gyfer cynllunio ariannol, ac y creffir yn dda ar ei gyllid. Er i'r Bwrdd Iechyd gyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2021–22, mae'n wynebu sawl risg i gyflawni cydbwysedd ariannol a chynaliadwyedd yn y tymor byr a'r tymor canolig.**

## Amcanion ariannol

60 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar waith i gyflawni ei amcanion ariannol allweddol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:

- a yw'r Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei hamcanion ariannol ar gyfer 2021–22, ac a yw trywydd iawn i fodloni ei ddyletswyddau ariannol yn 2022–23; ac
- a oes ganddo gynllun ariannol clir a chadarn ar waith, sy'n cynnwys arbedion realistig a chynaliadwy a chynlluniau gwella costau.

61 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei holl ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2021–22. Fodd bynnag, mae pwysau costau cynyddol, yn ogystal â'r diffyg sylfaenol, yn creu risgiau o ran cydbwysedd ariannol a chynaliadwyedd yn y tymor byr a'r tymor canolig.**

62 Ar ddiwedd 2021–22, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol i weithredu o fewn ei derfyn adnoddau refeniw blynyddol ac o fewn ei derfyn adnoddau cronnol ar gyfer cyfnod treigl tair blynedd 2019–20 hyd 2021–22, gan gyflawni gwargedion o £172,000 a £1.143 miliwn yn y drefn honno. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol 2021–22 i fantoli'r cyfrifon o'u cymharu â'i derfyn adnoddau cyfalaf blynyddol a thair blynedd dreigl, gan gyflawni gwargedion

o £42,000 a £113,000 yn y drefn honno. Fodd bynnag, gan iddo fethu â chyflawni targed arbedion 2021–22 o £11.1 miliwn, dechreuodd flwyddyn ariannol 2022–23 â diffyg sylfaenol cronedig o £44.5 miliwn.

63 Nodir cynllun ariannol y Bwrdd Iechyd yn glir yng Nghynllun Blynyddol 2022–23. Mae'r cynllun yn seiliedig ar gyfres glir o ragdybiaethau ynghylch incwm disgwyliedig y Bwrdd Iechyd, cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi'r adferiad yn sgil COVID-19, pwysau cost eithriadol, a photensial gwasanaethau i arbed costau. Fodd bynnag, nid oes gan y cynllun fanylion digonol am risgiau ariannol na chamau lliniaru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio rheoli ei heriau ariannol drwy wella rhagolygon, nodi camau unioni, a chyflawni arbedion costau. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y trefniadau hyn yn ddigon cadarn. Ym Mis 9, 2022–23, roedd y Bwrdd Iechyd yn adrodd am ddiffyg o £7.2 miliwn mewn arbedion rheolaidd, a gorwariant o £5.8 miliwn a £11 miliwn mewn Rhagnodi Gofal Sylfaenol a Grwpiau Gofal Cynlluniedig/Cyfarwyddiaethau yn y drefn honno **(Argymhelliad 6)**.

64 Nid yw'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i gyflawni ei holl ddyletswyddau ariannol yn 2022–23. Gan nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n gytbwys yn ariannol ar gyfer 2022–2025, mae wedi methu ei ddyletswydd statudol i baratoi cynllun tair blynedd cymeradwy. Ym Mis 9, 2022–23, adroddodd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £21.3 miliwn ar gyfer y flwyddyn yma o'i gymharu â'i gynllun refeniw craidd, a oedd £1.4 miliwn yn waeth na'r cynllun. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y byddai'r diffyg yn aros ar £26.5 miliwn yn unol â'r cynllun craidd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru[5]. Mae'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i aros o fewn ei derfyn adnoddau cyfalaf ar gyfer 2022–23, gan wario £50.1 miliwn o'i gyllideb gyfalaf ym Mis 9, 2022–23.

## Rheolaethau ariannol

65 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer dyrannu, awdurdodi, cofnodi, a rheoli'r defnydd o'i adnoddau ariannol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:

- a oes rheolaethau effeithiol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyo;
- a yw'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal goruchwyliaeth briodol o drefniadau a pherfformiad sy'n ymwneud â gweithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll;
- a oes trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith; ac
- a gafodd datganiadau ariannol eu cyflwyno ar amser, heb gynnwys camddatganiadau perthnasol, ac a gawsant farn archwilio lân.

[5] Nid yw'r rhagolygon yn cynnwys costau ymateb i COVID-19 a phwysau cost eithriadol eraill.

66 Canfuom, **er bod rhai rheolaethau ariannol yn ymddangos yn gadarn, bod angen cryfhau rhai eraill.**

67 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol i sicrhau cydymffurfiad â'i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'i Gynllun Cadw a Dirprwyo. Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Archwilio Mewnol sgôr sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd systemau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer rheolaeth gyllidebol ac archebu nwyddau a gwasanaethau. Ni wnaethom nodi unrhyw wendidau rheoli sylweddol o'n hadolygiad o ddatganiadau ariannol 2021–22 y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, gwnaethom argymell 14 o welliannau, gan gynnwys angen i'r Bwrdd Iechyd geisio cymeradwyaeth amserol i benodi unrhyw uwch-swyddog y byddai ei gyflog yn fwy na'r band cyflog perthnasol a awdurdodwyd gan Lywodraeth Cymru.

68 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol o drefniadau a pherfformiad y Bwrdd Iechyd sy'n ymwneud â gweithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll. Mae'r adroddiadau a baratowyd gan y Bwrdd Iechyd yn glir ac yn cefnogi goruchwyliaeth, gwaith craffu a her effeithiol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn adolygu unrhyw newidiadau a wneir i weithdrefnau rheoli ariannol. Er bod Gweithdrefnau Rheoli Ariannol y Bwrdd Iechyd yn effeithiol ar y cyfan, gwnaethom nodi cyfleoedd i gryfhau rheolaethau ymhellach drwy adolygu'r terfyn ariannol uchaf dirprwyedig ar gyfer y Prif Weithredwr **(Argymhelliad 7a)**, ac i sicrhau bod proses glir ar waith i'r Bwrdd adolygu a chymeradwyo rhaglenni a phrosiectau cyfalaf (**Argymhelliad 7b**). Canfuom hefyd fod rhai o'r gweithdrefnau rheoli ariannol a gyhoeddwyd ar wefan y Bwrdd Iechyd wedi dyddio, megis y gweithdrefnau ar gyfer cleifion preifat, ac eiddo cleifion (**Argymhelliad 7c**).

69 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ddatganiadau ariannol drafft i'w harchwilio erbyn y dyddiad cau o 29 Ebrill 2022 a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor Archwilio a Risg y rhain ar 14 Mehefin 2022. Ni nododd ein harchwiliad unrhyw gamddatganiadau perthnasol, a gwnaethom gyhoeddi barn archwilio ddiamod, heblaw am y farn ar reoleidd-dra y gwnaethom gyhoeddi barn amodol ar ei chyfer[6].

## Trefniadau monitro ac adrodd

70 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu ar berfformiad ariannol y sefydliad, gan ei herio. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:

- a yw adroddiadau i'r Bwrdd yn rhoi darlun clir o sefyllfa ariannol y sefydliad, yn ogystal â'r heriau ariannol allweddol, y risgiau, a'r camau lliniaru a gymerir; ac

[6] Gwnaethom gyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra i'r holl Fyrddau Iechyd oherwydd rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr.

- a yw aelodau'r Bwrdd yn herio asesiadau o'r sefyllfa ariannol sy'n mynd rhagddynt yn ddigonol.

71 Canfuom fod **adroddiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn glir ac yn gynhwysfawr ar y cyfan a'u bod yn cefnogi gwaith monitro a chraffu effeithiol.**

72 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer adrodd perfformiad ariannol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid. Mae adroddiadau'n darparu gwybodaeth amserol ac o ansawdd da, ac yn cynnwys cymysgedd da o destun ac arddangosion i gyfleu negeseuon allweddol. Mae'r adroddiadau'n nodi sefyllfa'r Bwrdd Iechyd yn glir o ran refeniw, cyfalaf ac arbedion. Er bod adroddiadau hefyd yn amlygu risgiau ariannol allweddol, cyfleoedd a rhagdybiaethau yn glir, nid ydynt yn rhoi digon o sicrwydd bod camau lliniaru ar waith i fynd i'r afael â nhw (**Argymhelliad 8a**). Hefyd, rhoddodd y Bwrdd Iechyd y gorau i adrodd ar berfformiad ariannol y Grwpiau Ardal Integredig o Fis 5, 2022–23, yn dilyn cymeradwyaeth y model gweithredu newydd. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd adrodd ar berfformiad ariannol y Grwpiau Gofal newydd i'r Bwrdd cyn gynted â phosibl (**Argymhelliad 8b**). Rydym wedi arsylwi gwaith craffu a herio da ynghylch sefyllfa ariannol y sefydliad yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid.

# Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill

73 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn rhoi ein safbwyntiau lefel uchel ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ehangach, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn a ganlyn:

- trefniadau i gefnogi llesiant y staff (noder y byddwn yn cynnal adolygiad ar wahân o drefniadau cynllunio gweithlu ehangach y sefydliad);
- trefniadau ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol;
- trefniadau ar gyfer rheoli ei ystad ac asedau ffisegol eraill.

74 Canfuom **fod llesiant y staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth glir i'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael â heriau capasiti ac ariannu er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd i gynyddu gymaint â phosibl y manteision sy'n deillio o ddigidol, ac mae angen cryfhau'r arolygiaeth ar faterion sy'n ymwneud â'r ystad ar lefel y Bwrdd.**

## Cefnogi llesiant y staff

75 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer cefnogi llesiant y staff. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:

- a yw dulliau i ofyn am safbwyntiau'r staff ar eu hanghenion llesiant yn effeithiol, ac a gymerir camau priodol i ymateb i ganfyddiadau; ac

- a yw camau gweithredu i gefnogi a gwella llesiant y staff yn cael eu monitro'n weithredol gan y Bwrdd, gan gynnwys camau a gymerir mewn ymateb i'n hadroddiad ar sut y gwnaeth cyrff y GIG gefnogi llesiant y staff yn ystod pandemig COVID-19[7].

76 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer ceisio safbwyntiau'r staff ar eu hanghenion llesiant, ond bod angen iddo gryfhau ei drefniadau ar gyfer rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ar effeithiolrwydd ei gynnig llesiant.**

77 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer ceisio safbwyntiau'r staff am eu hanghenion llesiant, megis yr arolwg llesiant blynyddol. Mae tystiolaeth dda o'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio sylwadau'r staff i lunio ei gynnig llesiant. Er enghraifft, cynyddodd y Bwrdd Iechyd elfen ariannol ei ddarpariaeth llesiant yn dilyn sylwadau gan y staff.

78 Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ar ei weithgareddau llesiant a'i berfformiad o'u cymharu â metrigau'r gweithlu. Er bod adroddiadau'n darparu trosolwg da o'r gweithgareddau, nid ydynt yn rhoi digon o sicrwydd bod ymyriadau llesiant yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant y staff.

79 Cafodd y Pwyllgor Archwilio a Risg yr ymateb gan reolwyr i'n hargymhellion yn adroddiad Gofalu am Ofalwyr ym mis Rhagfyr 2021. Ym mis Rhagfyr 2022, adroddodd y Bwrdd Iechyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg fod pob un o'r chwe argymhelliad wedi eu cwblhau.

## Rheoli adnoddau digidol

80 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:

- a oes strategaeth ddigidol a gymeradwyir gan y Bwrdd ar waith sy'n ceisio harneisio a manteisio ar dechnoleg ddigidol i wella ansawdd, diogelwch, ac effeithlonrwydd gwasanaethau, yn ogystal â chefnogi modelau newydd o ofal a ffyrdd newydd o weithio; ac
- a yw'r Bwrdd yn monitro'n weithredol y manteision sy'n deillio o fuddsoddiadau mewn technoleg ddigidol.

81 Canfuom, **er bod gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth Ddigidol glir ar waith, fod rhaid iddo geisio mynd i'r afael â heriau staffio ac ariannu er mwyn cynyddu manteision technolegau ac atebion digidol gymaint â phosibl**.

82 Nodir bwriad digidol strategol y Bwrdd Iechyd yn glir yn ei Strategaeth Ddigidol, sydd wedi bod ar waith ers 2017. Ym mis Ebrill 2022, adolygodd Archwilio Mewnol

[7] Archwilio Cymru, Gofalu am y Gofalwyr? Sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19, Hydref 2021

y Strategaeth Ddigidol a chyhoeddodd sgôr sicrwydd rhesymol. Canfu fod wyth thema y Strategaeth Ddigidol yn parhau i fod yn ddilys, ac mae'n cefnogi strategaeth gyffredinol y sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu adolygu'r Strategaeth Ddigidol yn rhan o'i drefniadau ar gyfer datblygu Strategaeth Glinigol y sefydliad.

83 Mae'r Pwyllgor Digidol a Data yn monitro cynnydd y Bwrdd Iechyd fel mater o drefn wrth iddo gyflawni'r 28 cynllun digidol mawr a nodir yng Nghynllun Blynyddol 2022–23. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r capasiti yn y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r agenda trawsnewid digidol yn llawn. Mae'r cyllid cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael hefyd yn rhwystr i gyflawni. Er bod y risgiau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, dylai'r Bwrdd Iechyd geisio nodi yn ei Strategaeth Ddigidol ar ei newydd wedd sut mae'n bwriadu goresgyn heriau staffio ac ariannu, er mwyn manteisio'n llawn ar yr hyn a gynigir gan dechnolegau ac atebion digidol (**Argymhelliad 9**).

## Rheoli'r ystad ac asedau ffisegol eraill

84 Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli ei ystad ac asedau ffisegol eraill. Wrth archwilio hyn, rydym wedi edrych ar yr hyn a ganlyn:

- a oes strategaethau a chynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar waith ar gyfer rheoli ystadau'r sefydliad a'i asedau ffisegol ehangach;
- a oes trefniadau priodol ar waith fel y gall y Bwrdd adolygu a chraffu ar raglenni a phrosiectau cyfalaf sylweddol, gan eu herio a'u cymeradwyo nhw; ac
- a oes trefniadau priodol ar waith fel y gall y Bwrdd gynnal goruchwyliaeth briodol o gyflwr yr ystad ac asedau ffisegol eraill.

85 Canfuom **nad oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ystadau ar hyn o bryd, a bod angen cryfhau trefniadau goruchwylio cyflwr yr ystad ar lefel y Bwrdd a chraffu ar raglenni a phrosiectau cyfalaf.**

86 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth Ystadau ar hyn o bryd, ond mae'n bwriadu datblygu un yn ystod 2023. Yn absenoldeb strategaeth ystadau, mae Cynllun Blynyddol 2022–23 yn nodi cynlluniau cyfalaf y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2022–23. Adlewyrchir yn briodol y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cyllid cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael yn y cynllun.

87 Mae'n ymddangos bod gan y Bwrdd swyddogaeth gyfyngedig o ran adolygu, craffu, herio, a chymeradwyo prosiectau a rhaglenni cyfalaf sylweddol. Ar lefel weithredol, creffir ar geisiadau cyfalaf gan y Grŵp Rheoli Cyfalaf Gweithredol. Ym mis Mai 2022, cymeradwyodd y Grŵp Rheoli Cyfalaf Gweithredol raglen waith cynnal a chadw statudol ac ôl-gronnol y Bwrdd Iechyd. Y dyraniad cynnal a chadw ôl-gronnol ar gyfer 2022–23 yw £1.8 miliwn o'i gymharu ag ôl-groniad a addaswyd yn ôl risg, sy'n rhoi cyfanswm o £62.9 miliwn. Ym mis Mehefin 2022, rhoddodd y Bwrdd Iechyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a

Chyllid am y rhaglen gyfalaf. Amlinellodd yr adroddiad raddfa'r her, darparodd ffigurau cynnal a chadw ôl-gronnol, a nododd y meini prawf blaenoriaethu ar gyfer cyfalaf dewisol.

88 Mae angen cryfhau trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod cyflwr yr ystad ac asedau ffisegol eraill yn cael ei oruchwylio'n briodol ar lefel y Bwrdd. Er bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cyfeirio at y bwriad o gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig ag ystadau i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid o fis Mehefin 2022, nid ydym wedi gweld tystiolaeth o hyn eto. Hefyd, er bod Bwrdd Llywodraethu Cyfalaf ac Ystadau y Bwrdd Iechyd yn cynnal goruchwyliaeth weithredol, nid yw'n darparu adroddiadau sicrwydd i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid ar ddangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig ag ystadau a risgiau **(Argymhelliad 10a)**. Hefyd, dylai ddiweddaru Cylch Gorchwyl y pwyllgor i adlewyrchu'r cyfrifoldebau hyn **(Argymhelliad 10b)**, a sefydlu proses glir ar gyfer sicrhau bod materion yn cael eu croesgyfeirio'n briodol gyda'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, sy'n goruchwylio materion iechyd a diogelwch **(Argymhelliad 10c)**.

# Atodiad 1

## Dull archwilio

Noda **Arddangosyn 4** y dull a fabwysiadwyd gennym ar gyfer cyflawni ein gwaith asesu strwythuredig yn y Bwrdd Iechyd.

**Arddangosyn 4: dull archwilio.**

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:<br>• Pwyllgor Archwilio a Risg;<br>• Pwyllgor Digidol a Data;<br>• Pwyllgor Pobl a Diwylliant;<br>• Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid;<br>• Pwyllgor Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau;<br>• Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. |

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylch Gorchwyl y Bwrdd a'r Pwyllgor, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau, a chofnodion;<br>• Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau Buddiannau, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch;<br>• Strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig;<br>• Dogfennau rheoli risgiau allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol;<br>• Adroddiadau allweddol sy'n ymwneud â pherfformiad a chyllid sefydliadol;<br>• Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol;<br>• Polisïau a gweithdrefnau perthnasol; ac<br>• Adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Cyfweliadau | Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r Uwch-swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Cadeirydd y Bwrdd;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Digidol a Data;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch;<br>• Y Prif Weithredwr;<br>• Y Prif Swyddog Gweithredu;<br>• Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol;<br>• Y Cyfarwyddwr Digidol;<br>• Y Cyfarwyddwr Cyllid;<br>• Y Cyfarwyddwr Strategaeth a Thrawsnewid;<br>• Y Cyfarwyddwr Meddygol;<br>• Y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg. |

# Atodiad 2

## Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio

**Exhibit 5: ymateb y sefydliad**

| Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **A1 Gwella trefniadau llywodraethu gweinyddol.**<br>Canfuom gyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau llywodraethu gweinyddol, er mwyn gwella tryloywder cyhoeddus ac effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd, wneud yr hyn a ganlyn:<br>a) cyhoeddi agendâu cyfarfodydd preifat y Bwrdd a'r pwyllgorau;<br>b) cyhoeddi'r papurau ar gyfer holl gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd, y pwyllgorau, a chyfarfodydd chynghori ar ei wefan mewn modd amserol; | a) O dan yr amgylchiadau eithriadol pan fo'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gynnal cyfarfod Bwrdd neu Bwyllgor Bwrdd Preifat, bydd yn ymdrechu i dynnu sylw at yr eitemau agenda a gwmpesir ar yr Agenda Cyhoeddus er tryloywder.<br>b) Oherwydd cyfyngiadau capasiti yn y Swyddogaeth Llywodraethu Corfforaethol, derbynnir y posibilrwydd yr effeithir ar y dasg o gyhoeddi papurau yn amserol. Mae | a) 30 Ebrill 2023<br><br>b) 31 Awst 2023 | Y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg |

| Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| c) diweddaru taflenni clawr adroddiadau er mwyn galluogi awduron i gysylltu eu hadroddiadau'n well â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a<br>d) diweddaru taflenni clawr cyflwyniadau er mwyn galluogi awduron i grynhoi'r wybodaeth yn ddigonol a chipio'r risgiau a'r materion perthnasol. | trafodaethau ar y gweill â'r Tîm Datblygu'r We i ystyried a all ddarparu cefnogaeth interim dros y 3–6 mis nesaf.<br>c) Bydd adroddiadau clawr yn cael eu hadolygu i ymgorffori gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).<br>d) Dylid adolygu taflenni clawr ar gyfer cyflwyniadau er mwyn sicrhau bod awduron yn adlewyrchu'r risgiau a'r materion allweddol yn ddigonol. | c) 30 Mehefin 2023<br>d) 30 Mehefin 2023 | |
| **A2 Defnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i lunio busnes y Bwrdd.**<br>Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, nid yw'n cael ei ddefnyddio eto i lunio busnes y Bwrdd na'r pwyllgorau ar hyn o bryd. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn weithredol ac yn barhaus i lunio ac i lywio rhaglenni gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau. | Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnwys Adroddiad Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ei gyfarfodydd gosod yr agenda ac yn alinio Cylchoedd Busnes y Bwrdd a'r Pwyllgor er mwyn sicrhau bod busnes y cyfarfodydd yn cael ei lywio gan y prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.<br><br>Bydd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd hefyd yn helpu i lunio Cylchoedd Busnes Bwrdd a Phwyllgorau ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.<br><br>Neilltuir prif risg i bob Pwyllgor a fydd yn gweithredu fel y 'Pwyllgor sicrwydd' ym mhapur clawr y Gofrestr Risgiau | 31 Awst 2023 | Y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg |

| Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| | Sefydliadol a dderbynnir ym mhob cyfarfod Pwyllgor rheolaidd fel y bo'n briodol. | | |
| **A3 Cryfhau'r trefniadau rheoli perfformiad.**<br>Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o heriau perfformiad hirsefydlog ar draws llawer o feysydd mewn gofal a gynlluniwyd a gofal brys ac argyfwng, sy'n arwain ato'n cael ei uwchgyfeirio i fonitro gwell oddi wrth y trefniadau arferol o dan Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd Llywodraeth Cymru. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei drefniadau rheoli perfformiad ac adrodd yn canolbwyntio'n briodol ar yr heriau allweddol y mae'n eu hwynebu mewn gofal a gynlluniwyd a gofal brys ac argyfwng, yn enwedig lle mae perfformiad yn y meysydd hynny'n gymharol waeth na Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru. | Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio i wella'r Adroddiadau Perfformiad Integredig i'r Bwrdd. Mae'r gosodiad, y cynnwys ac yn benodol y naratif drwy gydol yr adroddiad i'r Bwrdd yn cael eu mireinio a'u diweddaru'n gyson i sicrhau bod gan y Bwrdd yr wybodaeth gywir ar yr adeg gywir. Yn ogystal â hynny, cymerwyd camau i sicrhau bod pwyllgorau'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth am berfformiad sy'n berthnasol i'w cylch gwaith.<br><br>Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod, o ystyried natur ei fusnes a'i gymhlethdodau, fod hwn yn parhau i fod yn adroddiad mawr iawn ac y gall fod yn heriol nodi'r materion mwyaf arwyddocaol.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal gweithdy gydag Aelodau'r Bwrdd yn ystod gwanwyn 2023 i ddatblygu dull sy'n galluogi gwell gwelededd o'r dangosyddion pwysicaf gan barhau i gyflwyno'r holl fetrigau eraill mewn modd amserol er mwyn bod yn agored ac yn atebol.<br><br>Er y bydd creu cyfleoedd i aelodau ddewis y 'dangosyddion pwysicaf' yn galluogi'r Bwrdd i gysoni | 30 Medi 2023<br><br>Mae'r gweithdy gydag Aelodau'r Bwrdd wedi ei drefnu ar gyfer Chwarter 1, 2023–24. | Y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid (Fframwaith Perfformiad)<br><br>Prif Swyddog Gweithredu (Perfformiad Gweithredol)<br><br>Y Cyfarwyddwr Digidol (Gwybodaeth |

| Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | mesurau â blaenoriaethau strategol ac ati, bydd yr Arweinwyr Gweithredol hefyd yn tynnu sylw'r Bwrdd at feysydd sy'n peri pryder a/neu feysydd lle mae'r perfformiad yn gymharol waeth na Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru. | | am Berfformiad) |
| **A4 Sefydlu canlyniadau mesuradwy ar gyfer blaenoriaethau strategol.** Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cadarnhaol wrth ddatblygu gweledigaeth hirdymor, nodau strategol a blaenoriaethau strategol ar gyfer y sefydliad, nid oes gan y strategaeth newydd (CTM 2030) ganlyniadau clir a mesuradwy. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd geisio mynegi canlyniadau ar gyfer pob blaenoriaeth strategol, sut byddai llwyddiant yn edrych, a sut y bydd yn mesur ac yn adrodd ar gynnydd. Wrth wneud hynny, dylai ystyried y berthynas rhwng nodau Strategaeth Iechyd y Boblogaeth a'r nodau strategol ehangach a dull 'cwrs bywyd' iechyd y cyhoedd a nodir yn CTM 2030. | Rydym yn cytuno bod angen datblygu'r gwaith hwn. Gwaith parhaus y Grwpiau Strategaeth a grŵp llywio CTM 2030 yw nodi'n glir y gwelliannau mesuradwy i'w cyflawni. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â mesurau sydd eisoes yn bodoli a nodir yn y Nodau Pedwarplyg. Mae pob arweinydd 'pennod strategaeth' yn gyfrifol am nodi'r canlyniadau mesuradwy ar gyfer ei 'bennod'.<br>Hefyd, mae gwaith eisoes wedi dechrau i gysoni gwaith grŵp strategaeth â'r nodau a'r mesurau a nodir yn y cynllun Rheoli Iechyd y Boblogaeth. Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod yr edefyn rhwng yr agweddau hyn yn fwy gweladwy. | 30 Mehefin 2023 | Y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid |

| Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **A5 Gwella trefniadau ar gyfer monitro'r broses o gyflawni cynlluniau a strategaethau corfforaethol, a'r broses o adrodd i'r Bwrdd ar y cynnydd.**<br>Canfuom gyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau ar gyfer monitro'r broses o gyflawni cynlluniau a strategaethau corfforaethol, a'r broses o adrodd i'r Bwrdd ar y cynnydd Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau drwy sicrhau:<br>a) bod cynlluniau a strategaethau yn cynnwys crynodebau clir o'r camau gweithredu/cyflawniadau allweddol, amserlenni, a mesurau i gefnogi gwaith monitro ac adrodd effeithiol;<br>b) bod cynlluniau a strategaethau yn rhoi mwy o fanylion ynghylch pa Gyfarwyddwyr Gweithredol sy'n gyfrifol am gyflawni camau gweithredu/cyflawniadau allweddol er mwyn galluogi atebolrwydd priodol; ac<br>c) bod adroddiadau'n gyson ag adroddiadau perfformiad, er mwyn | a) Bydd yr holl gynlluniau a strategaethau yn cynnwys crynodeb gweithredol sy'n nodi'r wybodaeth hon. Fel y nodir uchod, mae gwaith yn mynd rhagddo ynghylch mesurau canlyniadau.<br>b) Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau i gyflawni, felly byddwn yn sicrhau bod hyn yn fwy gweladwy.<br>c) Bydd adroddiadau'n cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn darparu digon o wybodaeth i'r Bwrdd asesu'r effaith o | 30 Mehefin 2023 | Y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid |

| Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| galluogi'r Bwrdd i asesu i ba raddau y mae rhoi camau gweithredu/cyflawniadau allweddol ar waith yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad y Bwrdd Iechyd. | roi camau gweithredu a chyflawniadau allweddol ar waith ar berfformiad y Bwrdd Iechyd. | | |
| **A6 Cryfhau'r trefniadau rheoli ariannol.** Gwnaethom nodi'r angen i'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau ar gyfer atal gwariant a chyflawni arbedion. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei drefniadau i sicrhau bod digon o afael a her o ran gwariant a chyflawni cynilion ar bob lefel o'r sefydliad. | Cynhelir cyfarfodydd adolygu cyllid gyda'r holl Grwpiau Gofal yn fisol a chyda swyddogaethau eraill bob deufis. Mae'r cyfarfodydd hyn yn ymdrin â chyflawni arbedion, amrywiannau gwariant ynghyd â chynlluniau gweithredu i wella'r amgylchedd rheoli cyffredinol. Bydd y prosesau hyn yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn ddigon cadarn o ran cynnwys gwariant y Bwrdd Iechyd a chyflawni arbedion arfaethedig.<br>Yn y Cynllun Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2023–24, cynigir y bydd Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad o reolaeth gyllidebol ar lefel leol. | 30 Medi 2023 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |
| **A7 Cryfhau rheolaethau ariannol**<br>Er bod gweithdrefnau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd yn effeithiol ar y cyfan, gwnaethom nodi cyfleoedd i gryfhau rhai | a) Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad o derfyn ariannol uchaf y Prif Weithredwyr. Bydd hyn yn rhan o'r adolygiad o Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd a arweinir gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol. | a) Cwblhawyd | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |

| Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| rheolaethau ac i ddiweddaru'r wybodaeth sydd ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud yr hyn a ganlyn:<br>a) adolygu'r terfyn ariannol dirprwyedig uchaf ar gyfer y Prif Weithredwr;<br>b) sicrhau bod proses glir ar waith fel y gall y Bwrdd adolygu a chymeradwyo rhaglenni a phrosiectau cyfalaf; a<br>c) sicrhau bod gweithdrefnau rheoli ariannol sydd wedi dyddio yn cael eu tynnu oddi ar ei wefan a'u disodli gan y fersiynau cyfredol. | b) Rheolir pob cymeradwyaeth cyfalaf trwy'r Grŵp Rheoli Cyfalaf Gweithredol sy'n cyfarfod yn fisol ac sy'n cymeradwyo pob cynllun newydd ac addasiad i gynlluniau cyfalaf cymeradwy. Cadeirir y Grŵp Rheoli Cyfalaf Gweithredol gan y Cyfarwyddwr Cyllid, ac mae'r Cyfarwyddwr Strategaeth a Thrawsnewid a'r Prif Swyddog Gweithredu yn aelodau hefyd. Ers dileu'r Bwrdd Rhaglen Gyfalaf, adroddir ar gyfer y rhaglen gyfalaf a'r holl achosion busnes trwy Bwyllgor y Bwrdd Cynllunio, Perfformiad a Chyllid, cyn adrodd yn y Bwrdd. Cynigir bod adroddiadau cyfalaf chwarterol yn cael eu hadfer trwy Bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid a bod y Bwrdd ymdrin â'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen gyfalaf a phrosiectau mawr.  Bydd achos busnes dros £1 miliwn yn cael ei ddwyn drwy'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid ac Agenda y Bwrdd, cyn cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru, gan ddibynnu ar y cynnydd ar brosiectau ac Agendâu y Bwrdd.<br>c) Mae adolygiad o'r holl Weithdrefnau Rheoli Ariannol sydd wedi dyddio ar y gweill. | b) Cwblhawyd<br><br>c) 31 Rhagfyr 2023<br>(Chwarter 3) | |
| **A8 Gwella adroddiadau ariannol i'r Bwrdd** | Mae'r adroddiadau cyllid misol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid yn crynhoi'r risgiau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd. Bydd yr | 31 Gorffennaf 2023 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |

| Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol i'r Bwrdd, gwnaethom nodi cyfleoedd i wella'r adroddiadau hyn ymhellach. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud yr hyn a ganlyn:<br>a) rhoi mwy o sicrwydd bod camau lliniaru ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau ariannol allweddol a amlygir yn yr adroddiadau; a<br>b) adrodd ar berfformiad ariannol y Grwpiau Gofal newydd cyn gynted â phosibl. | adroddiadau hyn yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod cynlluniau a chamau lliniaru ar waith a bod gan y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid hyder bod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.<br><br>Bydd yr adroddiadau hyn yn cofnodi perfformiad ariannol y Model Grŵp Gofal newydd. | | |
| **A9 Manteisio gymaint â phosibl ar y buddion sy'n deillio o dechnolegau ac atebion digidol**<br>Cyfyngedig yw'r capasiti yn y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei agenda trawsnewid digidol yn llawn. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd geisio nodi yn ei Strategaeth Ddigidol ar ei newydd wedd sut mae'n bwriadu goresgyn heriau staffio ac ariannu, er mwyn manteisio'n | Mae'r themâu a nodir yn y Strategaeth Ddigidol bresennol yn parhau i fod yn gyson â Strategaeth Ddigidol GIG Cymru ac maent wedi eu hymgorffori a byddant yn parhau i ddatblygu gyda strategaeth CTM 2030 mewn cysylltiad â gweithgarwch digidol.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dadansoddi a nodi'r set leiaf bosibl o adnoddau (staff a chyfalaf/refeniw) y bydd ei hangen dros y tair blynedd nesaf. | | Cyfarwyddwr Digidol |

| Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| llawn ar yr hyn a gynigir gan dechnolegau ac atebion digidol. | Yn cyd-fynd â'r gwaith hwn, yn ystod 2022, cwblhaodd y Bwrdd Iechyd fap swyddogaethol o'r gwasanaethau yr oedd eu hangen o safbwynt Digidol a Data. Cam nesaf y broses yw cysoni adnoddau staffio â'r swyddogaethau, a gyflawnir trwy ddilyn proses o newid sefydliadol.<br>Ar gyfer newidiadau Digidol a Data sylweddol (hy prosiectau/rhaglenni), mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu proses o greu achosion busnes i gefnogi'r dasg o drawsnewid gwasanaethau. Mae'r achosion busnes hyn yn nodi'r adnoddau (staffio a seilwaith) sydd eu hangen i weithredu newid i wasanaethau ac i sicrhau darpariaeth barhaus o wasanaethau cymorth i gynnal newid.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i fabwysiadu'r holl ddatblygiadau Digidol Cenedlaethol, fel y bo hynny'n briodol, ac mae wedi buddsoddi'n helaeth wrth weithredu'r cynhyrchion hyn ar draws y Bwrdd Iechyd. Y strategaeth bresennol yw parhau i weithredu yn y modd hwn a sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau bosibl o adnoddau, yn effeithlon ac yn effeithiol. | 31 Rhagfyr 2023 (Chwarter 3)<br><br>Chwarter 1—Achos Busnes ar gyfer Cyswllt sy'n Canolbwyntio ar y Claf.<br>Chwarter 2—Achos Busnes ar gyfer e-ragnodi.<br><br>Ar y gweill wrth i Ddatblygiadau Digidol Cenedlaethol gael eu rhyddhau. | |

| Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **A10 Cryfhau'r oruchwyliaeth o faterion a risgiau ystadau ar lefel y Bwrdd**<br>Nid oes digon o oruchwyliaeth o gyflwr yr ystad a risgiau cysylltiedig sylweddol eraill ar lefel y Bwrdd ar hyn o bryd. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd, wneud yr hyn a ganlyn:<br>a) sicrhau bod adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid ar ddangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig ag ystadau a risgiau;<br>b) diweddaru Cylch Gorchwyl y pwyllgor er mwyn adlewyrchu'r cyfrifoldebau hyn; ac<br>c) sefydlu proses glir ar gyfer sicrhau bod materion yn cael eu croesgyfeirio'n briodol gyda'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, sy'n goruchwylio materion iechyd a diogelwch. | Ar ôl cyhoeddi data blynyddol System Ystadau, Rheoli Perfformiad Cyfleusterau Llywodraeth Cymru, caiff y canfyddiadau eu hadrodd i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid. Mae'r adroddiad yn cynnwys perfformiad y Bwrdd Iechyd a fesurir o'i gymharu â dangosyddion perfformiad allweddol yr ystadau cenedlaethol, sef Cyflwr Ffisegol, cydymffurfiaeth Statudol a Diogelwch, diogelwch tân, addasrwydd swyddogaethol a'r defnydd o le. Hefyd, mae'r adroddiad yn cynnwys data perfformiad gweithredol arfaethedig ac adweithiol yr ystadau ar gyfer swyddi statudol a gorfodol, ac mae hefyd yn cipio data ceisiadau desg gymorth; cymharir y data a adroddir â blynyddoedd blaenorol fel y gellir dadansoddi tueddiadau. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys perfformiad ynni ac allyriadau Carbon Deuocsid ($CO_2$) y sefydliad sy'n cael eu mesur a'u hadrodd o'u cymharu â thargedau perfformiad Llywodraeth Cymru.<br>Ym mhob un o Is-bwyllgorau Iechyd, Diogelwch a Thân y Bwrdd Iechyd, mae eitem agenda safonol ar gyfer adroddiad Diogelwch a Chydymffurfiaeth Ystadau ac adroddiad diogelwch tân. Mae'r adroddiadau hyn yn cwmpasu'r systemau seilwaith critigol megis trydan foltedd uchel ac isel, nwyon meddygol, awyru a dŵr.<br>Mae gan y Gyfarwyddiaeth Ystadau a Chyfalaf ei chofrestr risgiau ei hun a adroddir i'r Bwrdd Llywodraethu | Yn unol â Chylch Busnes y Pwyllgor ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid a'r Is-bwyllgor Iechyd, Diogelwch a Thân—Oddeutu mis Ebrill/Mai 2023. | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |

| Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Ystadau/Cyfalaf pob chwarter, ac mae'r risgiau y rhoddir sgôr sy'n uwch na 15 iddynt yn cael eu hadrodd i Lywodraethiant Corfforaethol i'w cynnwys ar gofrestr Risgiau Sefydliadol y Bwrdd Iechyd.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ystyried ei ddull o ddatblygu Strategaeth Ystadau yn y Bwrdd Iechyd a sut y bydd hyn yn gyson â dogfennau a chynlluniau strategol allweddol eraill.<br>Bydd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid yn cael ei adolygu i adlewyrchu'r cyfrifoldeb er mwyn cael goruchwyliaeth o faterion ystadau ar lefel y Bwrdd.<br>Mae gan y Bwrdd Iechyd broses Atgyfeirio Pwyllgor ddiffiniedig a ddefnyddir os oes materion yn cael eu hystyried yn y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid neu'r Is-bwyllgor Iechyd, Diogelwch a Thân y mae angen eu hystyried yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Bydd y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Thân hefyd yn sicrhau y bydd unrhyw faterion ystadau yn cael eu hysbysu i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch drwy'r Adroddiad Amlygu Pwyllgor. | | |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.